**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau Cyfarfod Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 12 Chwefror 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| K M Griffiths | Y V Jardine | A Pugh |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C Anderson, M Durke, P K Jones, S M Jones a/ac I E Mann

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datgelu buddiannau – Alyson Pugh

2 **Cynigion Drafft Cyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

Trafododd Dave Howes, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol, a Julie Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y cynigion cyllidebol arfaethedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gan dynnu sylw at y prif faterion ac ateb cwestiynau.

3 **Crynhoi Barn a Chyflwyno Argymhellion**

Cytunodd y panel â'r farn a'r argymhellion canlynol am y cynigion cyllidebol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr hoffai eu cyflwyno i'r Cabinet:

- Yn weddol fodlon ar y gyllideb arfaethedig ar gyfer y GPTh ar gyfer 2018/19, gan gynyddu a mwyhau'r gwelliannau.
- Nodwyd bod y gyllideb gynyddol ar gyfer y GPTh yn bennaf er mwyn talu am gynnydd chwyddiannol cyflogau.
- Mae'r panel yn meddwl bod angen monitro'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (GIMPPhI) yn agos.
- Mae'r panel yn meddwl bod ymyrryd yn gynnar yn bwysig iawn. Mae'n croesawu'r ffordd flaengar o feddwl ond bydd am fonitro hyn wrth symud ymlaen.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

Bydd y cynullydd yn cyflwyno barn y panel, ar y cyd â chynullyddion paneli eraill, i'r Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid, sy'n cwrdd ar 14 Chwefror. Bydd cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid yna'n mynd i'r Cabinet ar 15 Chwefror i gyflwyno barn gyfunol paneli perfformiad craffu ac ysgrifennu llythyr at Aelod y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.50pm